

Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2019

CYFARFOD GRŴP LLYWIO BUDDSODDI RHANBARTHOL CYMRU

Dyddiad: 10 Hydref 2019

Amser: 10:30 – 13:30

Lleoliad: Canolfan Gynadleddau a Chyfarfodydd Glasdir, Llanrwst, Conwy, LL26 0DF

1. Croeso a Chyflwyniad

1. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i bedwerydd cyfarfod Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol Cymru. Estynnwyd croeso arbennig i Rachel Garside-Jones yn ei rôl newydd fel Dirprwy Gyfarwyddwr – mae'n arwain gwaith yn ymwneud â pholisi a buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru. Ceir rhestr o'r mynychwyr yn Atodiad A.

2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

2. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019.
3. Cytunodd yr aelodau ar y cofnodion, a fyddai wedyn yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru.
4. Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Aelodau at y log gweithredu, a oedd yn dangos bod nifer o gamau gweithredu'n 'agored'. O safbwynt y camau hyn, cyflwynwyd y diweddariadau canlynol:
 - a) Yn achos y model busnes pum achos a'r modelau llyfr gwyrdd, bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan yr is-grŵp Gweithredu a Chyflawni Modelau. Bydd yr aelodau'n cael y diweddaraf ar hyn yn un o gyfarfodydd y dyfodol, pan fydd rhai casgliadau wedi dod i'r amlwg.
 - b) Mae cynlluniau a syniadau i hwyluso ymgysylltu ymhlith dinasyddion yn cael eu trafod gan yr is-grwpiau a grŵp o wirfoddolwyr. Bydd y cynlluniau'n cael eu hystyried yn fwy manwl yn un o gyfarfodydd y dyfodol.
 - c) Mynegodd yr aelodau ddiddordeb yng ngwaith yr is-grwpiau a'r papurau cysylltiedig. Cytunwyd byddai cofnodion yr is-grwpiau yn cael eu rhannu â'r Grŵp Llywio.
5. Tynnodd y Cadeirydd sylw hefyd at fersiwn ddiweddaraf y ddogfen "Crynodeb o sylwadau'r aelodau i gynigion Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd yn sgil hynny". Dywedwyd bod y ddogfen hon hefyd yn cael ei rhannu gyda'r is-grwpiau hefyd fel y bydd modd iddynt gynnwys ac adlewyrchu barn y Grŵp Llywio yn eu gwaith.

6. Roedd yr aelodau'n fodlon â'r ddogfen gryno ac ni chynigiwyd unrhyw newidiadau nac ychwanegiadau.

3. Diweddariad cyffredinol

7. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Peter Ryland (PR) roi'r diweddaraf i'r aelodau am faterion yn ymwneud â Brexit a Chronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig y DU (UKSPF), ac unrhyw oblygiadau o ran gwaith y Grŵp Llywio.
8. Dywedodd Peter y bydd y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol presennol yn parhau i gael eu cyflawni tan 2023, ni waeth beth fydd canlyniad Brexit ar 31 Hydref 2019. Roedd y broses gyfathrebu'n parhau, er mwyn i weithwyr y sefydliadau a fyddai'n elwa ar gyllid yr UE gael yr wybodaeth allweddol ddiweddaraf, ynghyd â'r neges y dylai 'busnes barhau fel arfer'.
9. Ymhellach, soniwyd wrth yr aelodau am ddadansoddiad bylchau sy'n cael ei gynnal gan Rwydwaith Gwledig Cymru er mwyn sicrhau bod gan brosiectau ddigon o adnoddau i gyflawni tan 2023.
10. O safbwynt Cronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig Llywodraeth y DU (UKSPF), dywedodd Peter nad yw swyddogion na Gweinidogion y DU byth wedi cynnig eglurhad, ond y bydd swyddogion yn cadw golwg fanwl ar araith y Frenhines ar 14 Hydref i glywed unrhyw fanylion.
11. Gan nad oes eglurder o du Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae Gweinidogion Cymru yn dal i bwysleisio ein safbwyntiau, yn cynnwys, er enghraifft, trwy gyfrwng Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop y bydd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit yn ei fynyachu yn yr Alban heddiw.
12. Ymhellach, er bod y trafodaethau ynghylch UKSPF braidd yn gyfyngedig, mae swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU er mwyn ddangos y gwaith datblygu sydd ar droed, gan gynnwys gwaith y Grŵp Llywio, y gefnogaeth gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid i safbwyntiau Llywodraeth Cymru, a'r cyd-destun gwahanol yng Nghymru.
13. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau hefyd â thrafodaethau gyda gweinyddiaethau datganoledig eraill ac maent wedi cael gwybod bod yr Alban yn dymuno lansio ymgynghoriad cyn diwedd y flwyddyn ynghylch dyfodol cronfeydd a fydd yn cymryd lle cronfeydd yr UE.
14. Roedd sylwadau'r Grŵp Llywio yn cynnwys:
- a) Fel partneriaid, mae gan yr holl ahelodau ran i'w chwarae wrth atgyfnerthu safbwyntiau Llywodraeth Cymru gyda swyddogion cyfatebol yn y DU mewn perthynas â chyllid a fydd yn cymryd lle cyllid yr UE. O ran y mater hwn, dywedodd CLILC eu bod yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol ac yn codi materion yn ymwneud â datganoli, democratiaeth ar lefel leol a datganoli cyfrifoldebau i'r rhanbarthau;

- b) Roedd yn bwysig paratoi ar gyfer pob digwyddiad posibl, yn cynnwys y posibilrwydd y gallai'r DU aros yn yr UE.

4. Cyflwyniad: Dadansoddi goblygiadau daearyddol i Gymru yn sgil ymadael â'r UE

15. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Simon Brindle (SB), Cyfarwyddwr Strategaeth Brexit, a aeth ati i gyflwyno dadansoddiad o'r goblygiadau daearyddol i Gymru yn sgil ymadael â'r UE. Esboniodd fod y dadansoddiad yn cysylltu â gwaith y Grŵp Llywio gan ei fod yn ymdrin â meysydd a ffactorau allweddol y gallai fod angen i'r Grŵp Llywio eu hystyried er mwyn sicrhau y bydd trefniadau olynol yn sianelu buddsoddiadau mewn modd effeithiol.

16. Cyflwynodd y Grŵp Llywio y sylwadau canlynol ynglŷn â'r dadansoddiad:

- a) Mewn unrhyw ddadansoddiad, mae'n bwysig peidio â cholli golwg ar effaith Brexit ar y gadwyn gyflenwi (ac yn enwedig ar gwmnïau bach). Fe fydd effaith Brexit ar fusnesau'n amrywio'n ôl maint y busnesau. Gellid defnyddio gwaith ymchwil o'r fath ar lefel leol i geisio cyfarwyddo trafodaethau a gwaith llywodraethau lleol gyda chwmnïau lleol;
- b) Ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd yn mynd i'r afael â gwaith ar effaith Brexit ar y Gymraeg – oherwydd fe allai dirywiad yn sector amaethyddol Cymru, er enghraifft, gael effaith negyddol ar nifer o gymunedau bach, gwledig, Cymraeg eu hiaith;
- c) Cyn y refferendwm, roedd Iwerddon wedi cynnal rhywfaint o waith ymchwil ar effaith Brexit ar economi Iwerddon, ac efallai y byddai'n fuddiol rhannu gwaith ymchwil o'r fath ymhlith y gwledydd;
- d) Mewn unrhyw ddadansoddiad, mae angen ystyried hefyd yr effaith ar grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol, yn cynnwys rhywedd a chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- e) Mae'n bwysig canolbwyntio ar gyfleoedd, nid ar yr heriau'n unig. Mae Estonia yn enghraifft dda o sut bu'n rhaid i'r wlad feddwl yn arloesol ac yn greadigol ar ôl colli rhai marchnadoedd i Rwsia;
- f) Mae'n bwysig ystyried effaith twristiaeth ar yr economi, a'r swyddi cysylltiedig;
- g) Dylid ystyried cyfleoedd mewn perthynas â marchnadoedd myfyrwyr rhyngwladol a gwaith prifysgolion.

17. Ymatebodd SB gyda'r sylwadau canlynol:

- a) Er na soniwyd am hyn yn y cyflwyniad hwn, caiff y gadwyn gyflenwi ei mapio'n ofodol er mwyn dod o hyd i fannau a allai ddirodddef goblygiadau yn sgil Brexit. Mae FSB Cymru a CBI Cymru hefyd yn ymchwilio i hyn, ac maent yn cydgysylltu â Llywodraeth Cymru. Ymhellach, gofynnwyd i'r aelodau gyfeirio busnesau a rhanddeiliaid eraill at ganllawiau sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/paratoi-cymru>.

- a) Mae Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ystyried effaith bosibl Brexit ar yr iaith, gan roi sylw arbennig i sectorau sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, nodwyd bod effeithiau ymddygiad yn anodd iawn eu deall a'u rhagweld. Bydd SB yn rhoi gwybod i Uned y Gymraeg am y gwaith mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud.
- b) Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos ag Iwerddon ar amrywiaeth o faterion, yn cynnwys materion yn ymwneud â Brexit, a chafodd Swyddfa Is-gennad Iwerddon ei sefydlu yng Nghymru yn gynharach eleni. Ymhellach, mae gan Lywodraeth Cymru gynrychiolydd llawn amser yn Llysoedd Prydain yn Nulyn.
- c) Mae gwaith dadansoddi wedi'i wneud o ran lleiafrifoedd ethnig.
18. Dywedwyd bod Prif Swyddogion Rhanbarthol hefyd yn mynd i'r afael â gwaith yn ymwneud â chadwyni cyflenwi a'r effaith ar gymunedau Cymraeg. Ymhellach, maent yn gweithio'n agos gyda chwmnïau sy'n cael trafferthion oherwydd yr ansicrwydd yn sgil Brexit. Mae'r sylfaen dystiolaeth yn cael ei defnyddio i gyfarwyddo sgysiau'n lleol;
19. Dan amgylchiadau Brexit, mae'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o gynyddu, gyda'r posibilrwydd o golli swyddi. Mae trafodaeth ar waith gyda'r tîm Sgiliau i ddod o hyd i fylchau posibl mewn sgiliau, yn ogystal â chyfluoedd i fuddsoddi ac arloesi. Mae Cymru angen model a all ymateb i ofynion newidiol y farchnad swyddi.
20. Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd cyflwyno tystiolaeth sy'n doreithiog o ddata er mwyn helpu i gyfarwyddo trafodaeth y Grŵp Llywio hwn, ni waeth beth fydd yn digwydd o ran Brexit.

5. Trafodaeth: Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol – y diweddaraf

21. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Gwenllian Roberts (GR), Prif Swyddog Rhanbarthol Gogledd Cymru, i gyflwyno'r diweddaraf am gynlluniau i ddatblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol fel rhan o'r agenda ranbartholi yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi.
22. Dyma'r pwyntiau allweddol a wnaed:
- a) Mae gwaith ar y gweill ers yr haf gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i gasglu, dadansoddi a chydweddu tystiolaeth yn ymwneud â datblygu economaidd rhanbarthol. Ymhellach, ymdrinnir â meysydd ychwanegol, fel caffael;
- b) Fel gyda'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol, bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth galon gwaith y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, yn ogystal â chwarae i'n cryfderau (e.e. iechyd a gofal cymdeithasol, ymchwil ac arloesi, carbon isel ac ati).

- c) Mae gwaith ymgysylltu wedi cael ei wneud, yn cynnwys gyda Phrif Weithredwyr Llywodraeth Leol mewn rhanbarthau, i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol.
- d) Ymhellach, mae Prif Swyddogion Rhanbarthol yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar nifer o faterion, fel y Bil Llywodraeth Leol a'r Cydbwyllgorau Corfforaethol cysylltiedig, yr adolygiad o Busnes Cymru, a sut y gallent weithio ym maes datblygu economaidd rhanbarthol;
- e) Mae'n bosibl y bydd datganiad Gweinidogol yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn i roi gwybod am gynnydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol;
- f) Croesawodd y Prif Swyddogion Rhanbarthol unrhyw adborth ar sut y gallant weithio'n agosach gydag aelodau'r Grŵp Llywio hwn, a'r sectorau y maent yn eu cynrychioli, i ddatblygu'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol.

23. Gwnaed y sylwadau canlynol gan y Grŵp Llywio:

- a) Mae'n bwysig i waith y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol gydweddu â gwaith y Grŵp Llywio a'r hyn a wneir gan ffrydiau gwaith eraill;
- b) Mynegodd llywodraeth leol bryderon ynghylch y posibilrwydd y byddai'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn cael eu lansio heb ymgysylltu rhyw lawer â rhanddeiliaid;
- c) Mae angen i'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol fod yn hyblyg fel y gellir gweithio o fewn hinsoddau economaidd wrth iddynt symud.

24. Sicrhodd GR y Grŵp Llywio bod y Prif Swyddogion Rhanbarthol yn gweithio gyda rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, a'u bod hefyd yn cadw mewn cof na ddylid dyblygu darpariaethau nac ymgysylltu sydd eisoes ar waith. Derbyniwyd hefyd fod angen i'r amserlenni datblygu rhwng buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol a'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol gydweddu'n agos â'i gilydd, a dywedwyd bod swyddogion yn y ddau dîm wrthi'n ymdrin â hyn.

Cam gweithredu – RGJ i gydgyssylltu â'r Prif Swyddogion Rhanbarthol i sicrhau bod yr amserlenni datblygu rhwng buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol a'r Framweithiau Economaidd Rhanbarthol yn cydweddu â'i gilydd

6. Trafodaeth: Materion Allweddol a Blaenraglen Waith yr Is-grwpiau

25. I ategu papur yr is-grwpiau a ddsbarthwyd i'r Aelodau, gofynnodd y Cadeirydd i'r Ysgrifenyddiaeth gyflwyno trosolwg o waith pob un o'r pedwar is-grŵp.

Y Grŵp Fframwaith Cenedlaethol

26. Dyma'r pwyntiau allweddol a grybwyllwyd gan yr is-grŵp yn ei gyfarfodydd hyd yn hyn:

- Yr angen i ddeall diben y cyllid yn well. Argymhelliad yr ysgrifenyddiaeth oedd y dylid cael ffocws cliriach ar hyrwyddo twf gwyrdd, cynhwysol, gan ychwanegu gwerth y tu hwnt i gyllidebau presennol Llywodraeth Cymru. Cefnogwyd hyn gan y Grŵp Llywio;
- Mae papurau wedi'u drafftio ar bob un o'r pedwar maes â blaenoriaeth, yn pennu'r achos dros ymyrryd a'r amcanion strategol arfaethedig;
- Mae peth dryswch wedi bod ynghylch union ddiben y cyllid a'r lefel a ddefnyddir wrth ddiffinio canlyniadau. Oherwydd hyn, mae'r papur cyfredol yn pennu ein dull arfaethedig 'seiliedig ar ganlyniadau', sydd wedi'i seilio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y mae'r Grŵp Llywio wedi ei gymeradwyo yn barod.
- Bydd grwpiau drafftio ymgynghori ychwanegol, a fydd yn cynnwys gwirfoddolwyr o'r is-grwpiau, yn cael eu sefydlu ar gyfer pob maes â blaenoriaeth, er mwyn bwrw ymlaen ymhellach â'r gwaith.
- Bydd y gwaith yn cael ei ddatblygu gyda'n rhanddeiliaid, gan ystyried ein sylfeini tystiolaeth presennol, y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol, tystiolaeth yr OECD a pholisi presennol Llywodraeth Cymru.

Y Grŵp Cyflawni a Gweithredu

27. Dyma'r pwyntiau allweddol a grybwyllwyd gan yr is-grŵp yn ei gyfarfodydd hyd yn hyn:

- Ymddengys y ceir opsiynau o ran yr hyn y gellir ei gyflawni ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, ond mae materion mae angen ymdrin â nhw er mwyn pennu'r modelau cyflawni mwyaf priodol i sbarduno'r canlyniadau angenrheidiol;
- Dylid rhoi dull 'llawr gwlad' ar waith er mwyn ennyn diddordeb pobl;
- Mae'n bwysig ystyried gwersi a ddysgwyd ar sail prosiectau llwyddiannus ac aflwyddiannus;
- Mae angen hyblygrwydd yn y modelau cyflawni ar gyfer y dyfodol, er mwyn cydnabod anghenion amrywiol pob rhanbarth / ardal;
- Bydd ymarfer cwmpasu'n cael ei gynnal er mwyn dod o hyd i'r system TG fwyaf addas. Rhaid i'r system fod yn hyblyg, ac fe allai system seiliedig ar gwmwl helpu yn hyn o beth;
- Mae'r llyfr rheolau buddsoddi ar y cyd yn cael ei ystyried. Mae angen llai o reolau a llai o gymhlethdod;
- Dylai trefniadau sicrhau'r dyfodol fod yn fwy cymesur ac yn seiliedig ar risgiau, i helpu i osgoi dyblygu.

28. Crybwyllodd y Cadeirydd fater yn ymwneud â mesurau a ddefnyddir i gysoni adborth a gwaith y ddau is-grŵp hyn, yn enwedig o gofio'r rhyngweithio agos rhwng polisi a chyflawni.

29. Er bod negeseuon a chynnydd yn cael eu rhannu ar draws yr holl is-grwpiau, dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r swyddogion yn ystyried ffyrdd ychwanegol o ategu hyn, yn cynnwys y posibilrwydd o drefnu gweithdy ar y cyd i'r is-grwpiau i rannu barn a syniadau.

30. Roedd sylwadau'r Grŵp Llywio yn cynnwys y canlynol:

- a) Pwysigrwydd dysgu gwersi ar sail y gorffennol;
- b) Ni ddylai'r dull fod yn un 'o'r brig i lawr' sy'n golygu addasu prosiectau i weddu i raglenni a blaenoriaethau cenedlaethol. Yn hytrach, dylid cael dull sy'n sbarduno ffactorau a chyfleoedd rhanbarthol. Yn hyn o beth, mae'n bwysig diffinio'r berthynas rhwng y modd y bydd elfennau cenedlaethol a rhanbarthol yn gweithio ac ystyried diffinio amcanion strategol mewn termau rhanbarthol;
- c) Yn y cyd-destun hwn mae angen cael canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y tymor canol i'r tymor hir, ac nid ar Werth Ychwanegol Gros yn unig; hefyd, mae angen ystyried llesiant yn y cyd-destun hwn;
- d) Dylid cydnabod bod aelodau'r is-grwpiau'n cychwyn o safbwyntiau gwahanol; ond er bod angen cydbwyso'r holl fuddiannau, mae angen paratoi dogfen ymgynghori ar gyfer ei lansio'n gynnar y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, byddai'r is-grwpiau'n elwa ar gael cyfarwyddyd pellach ar rai elfennau er mwyn helpu i symud y gwaith datblygu yn ei flaen;
- e) Mae gan Fargen Ddinesig Caerdydd fodel llywodraethu a chanddo rolau a chyfrifoldebau clir, a gellid rhannu hwn i i helpu i gyfarwyddo'r gwaith datblygu.

Camau gweithredu:

Swyddogion i archwilio mesurau ychwanegol ar gyfer cysoni adborth a gwaith yr is-grwpiau, yn cynnwys y posibilrwydd o gynnal gweithdy ar y cyd yn y dyfodol

Swyddogion i rannu cofnodion yr is-grŵp gyda'r Grŵp Llywio

Rhannu model Bargen Ddinesig Caerdydd gyda'r Grŵp Llywio (a'r is-grwpiau)

Y Grŵp Monitro a Gwerthuso

31. Mae trafodaethau'r is-grŵp wedi canolbwyntio ar:

- Cryfderau a gwendidau'r system monitro a gwerthuso bresennol. Nododd yr is-grŵp fod y lefel bresennol o safbwynt cipio data yn dda, ond na wneir defnydd digonol o hyn;
- Yr angen i ddatblygu datblygu model busnes, gyda methodoleg lefel uchel;
- Cyd-ddatblygu strwythur cyffredinol, ac angen i hwnnw fod yn hyblyg;

- Yr angen am gapasiti digonol o fewn y timau gwerthuso i ddarparu cymorth i brosiectau, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid a 'bydis' prosiect, er mwyn i'r arweinwyr prosiectau allu canolbwyntio ar gyflawni;
- Yr angen i gydweddu â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda'r nod o edrych ar lesiant drwy ffenestr ehangach;
- Mae angen i'r dangosyddion ymdrin â chyfres o ganlyniadau;
- Yr angen i gadw arolygon arolygon buddiol ar lefel genedlaethol i sicrhau'r defnydd gorau o fuddsoddiadau;
- Yr angen i ymgysylltu â'r genhedlaeth bresennol trwy ddefnyddio cymwysiaidau clyfar, yn hytrach nag arolygon ffôn.

Y Grŵp Rhyngwladol a Thrawsffiniol

- Mae'r grŵp wedi edrych ar ystyriaethau strategol, megis y ffordd orau o gynorthwyo'r pedwar maes â blaenoriaeth a hefyd y ffordd orau o gysylltu â Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.
- Credir y gall gweithio rhyngwladol a thrawsffiniol gyflymu a chyfoethogi gweithgarwch ym mhob un o'r pedwar maes blaenoriaeth ac y dylai fod yn rhan o 'DNA' unrhyw raglen, nid dim ond ychwanegu ati;
- Mae adeiladu cysylltiadau trawsffiniol/rhyngwladol yn hanfodol ond cydnabyddir hefyd bod hynny'n cymryd amser a buddsoddiad;
- Gellir dadlau hefyd bod angen newid diwylliant sefydliadau yng Nghymru;
- Mae'r is-grŵp yn awyddus i weld dull gweithredu 'o'r gwaelod i fyny', sy'n cael ei arwain gan gyfleoedd, ond mae'n cydnabod yr angen am gyfeiriad strategol hefyd;
- Mae cynlluniau ar y gweill i archwilio arfer gorau o ranbarthau a gwledydd eraill, gan gynnwys cyflwyniadau gan arbenigwyr tramor. Mae'r is-grŵp hefyd yn edrych ar raglenni pwysig yr UE, fel Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC), Horizon, Erasmus ac ati;
- Mae'r heriau'n cynnwys: sicrhau bod yr achos o blaid cyllid penodol yn cael ei wneud; nodi ffyrdd o fesur cynnydd a chyflawniad; materion gweithredu megis gwariant y tu allan i'r ardal a mynediad at TG.

32. Gwnaeth y Grŵp Llywio y sylwadau canlynol:

- a) Mae llawer o gyfleoedd i weithio ar draws ffiniau yn bodoli a dylem ystyried sut i gefnogi'r ddwy ochr i'r ffin;
- b) Mae'r pwyslais ar adeiladu perthynas yn y gwaith hwn yn bwysig iawn, ynghyd â'r gydnabyddiaeth bod gweithio trawsffiniol yn cynnig gwerth dros amser;
- c) Mae angen mwy o gapasiti a gallu o fewn sefydliadau er mwyn symud ymlaen â'r nifer fawr o gyfleoedd i weithio'n drawsffiniol;

- d) Angen defnyddio ein perthynas â rhanbarthau/gwledydd eraill i gynnal/datblygu perthynas yn y dyfodol e.e. Fflandrys;
- e) Efallai y bydd angen dull strategol neu seiliedig ar dystiolaeth i gydbwysu'r ystod o gyfleoedd, eu perthnasedd i ranbarthau/sefydliadau, canlyniadau posibl, ac ati;
- f) Roedd rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer buddsoddi yn tueddu i gyfyngu ar weithio trawsffiniol a gweithio rhyngwladol; bwysig bod y cyfyngiadau hynny'n cael eu hosgoi mewn trefniadau olynol.

7. Trafodaeth: *Paratoi'r Ddogfen Ymgynghori*

33. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Anton Orzel (AO) i roi'r diweddaraf am y paratodau sydd ar waith i lansio dogfen ymgynghori yn gynnar y flwyddyn nesaf. Cyflwynwyd y pwyntiau allweddol a ganlyn:

- Roedd yr amserlenni rhwng y paratoi a'r angen i gytuno ar y ddogfen ymgynghori a chyflawni'r trefniadau olynol o fis Ionawr 2021 yn dynn iawn, gan ei gwneud yn ofynnol symud yn gyflym.
- Byddai croeso i farn y Grŵp Llywio ar fformat yr ymgynghoriad ac unrhyw arferion gorau/enghreiffiau o ymgysylltu â dinasyddion a allai helpu i lywio'r dull ymgynghori.
- Bydd gwirfoddolwyr o'r is-grwpiau yn cyfarfod yn ystod yr wythnosau nesaf i ddechrau drafftio adrannau penodol o'r ddogfen ymgynghori.
- Roedd yr adborth gan is-grŵp y Fframwaith Cenedlaethol a'r is-grŵp Gweithredu yn nodi eu bod yn ffafrio dull mwy cadarn yn seiliedig ar gynigion – a hynny oherwydd y cyfyngiadau amser a'r ffaith na fyddai modd cynnal ail ymgynghoriad.

34. Gwnaeth y Grŵp Llywio y sylwadau canlynol:

- Byddai amlinelliad neu brototeip o'r ymgynghoriad yn ddefnyddiol i'r Aelodau ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf;
- Mae angen ymgynghoriad sy'n seiliedig ar gynigion, oherwydd y cyfyngiadau amser;
- Mae dilyniant o ran ymgysylltu yn bwysig, gan ystyried datblygiad y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a meysydd gwaith eraill, sef y Bil Llywodraeth Leol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; h.y. beth sy'n ysgogi beth a sut y maent yn cydweddu â'i gilydd yng nghyd-destun datblygu economaidd rhanbarthol;

- Sicrhau bod pob ardal/cymuned economaidd-gymdeithasol yn cael eu cynnwys.

35. Cytunodd y Grŵp Llywio i ymgynghoriad yn seiliedig ar gynigion.

Cam gweithredu:

Cynigion ymgynghori/ymgysylltu i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y grŵp llywio

8. Trafodaeth: Y Diweddaraf am Brosiect y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)

36. Aeth y Cadeirydd ati i gyflwyno Sheilah Seymour i roi'r diweddaraf am brosiect yr OECD a themâu sy'n dod i'r amlwg.

37. Rhoddwyd gwybod i'r mynychwyr y bydd yr OECD yn dychwelyd i Gymru yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 25 Tachwedd, ac fel rhan o'r rhaglen waith honno bydd Seminar yn cael ei chynnal ar 27 Tachwedd (yng Nghaerdydd) i adrodd am yr adborth a gafwyd hyd yn hyn ac i gael mwy o adborth. Bydd gwahoddiadau'n cael eu hanfon at y Grŵp Llywio a rhai o aelodau'r is-grwpiau, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, cyn gynted ag y bo modd.

38. Yn ystod eu hymweliad bydd yr OECD yn cynnal astudiaeth achos yn ymwneud â rhanbarth y Canolbarth a'r De. Bydd yr astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar y ffyrdd y gall y rhanbarth gydweithio yn ogystal â chapasiti'r rhanbarth i wneud hynny, y cyfleoedd a'r manteision a ddaw yn sgil gweithio rhanbarthol a strwythurau llywodraethu.

39. Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'r OECD wrth iddynt ddatblygu eu syniadau, er mwyn i hyn allu cyfarwyddo'r ymgynghoriad sydd wrthi'n cael ei baratoi.

9. Cyfarfodydd y Dyfodol

40. Nodwyd bod swyddogion yn gweithio ar gynllun prosiect manylach a fydd yn sicrhau bod cyfarfodydd y Grŵp Llywio yn y dyfodol yn cyd-fynd â datblygiadau a cherrig milltir hollbwysig yn y rhaglen waith.

41. Cytunodd yr aelodau y byddai o fudd cynnal cyfarfod y Grŵp Llywio yn ystod ail wythnos mis Rhagfyr, er mwyn i'r aelodau allu ystyried amlinelliad/prototeip o'r ymgynghoriad. Bydd dyddiad cyfarfod arfaethedig yn cael ei anfon at y aelodau.

Cam gweithredu – Yr Ysgrifenyddiaeth i rannu cynllun prosiect â'r Grŵp Llywio

Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon dyddiad arfaethedig ym mis Rhagfyr

10. Unrhyw fater arall

42. Agorodd y cadeirydd y cyfarfod i unrhyw fater arall. Ni chafodd unrhyw fater arall ei grybwyll.

43. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau, a daeth â'r cyfarfod i ben.

RHESTR O'R MYNYCHWYR

Cadeirydd: Huw Irranca-Davies AC

Sefydliad	Enw a rôl
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Alyson Thomas, Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid
Prifysgolion Cymru	Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr
Rhwydwaith Gwledig Cymru	Eirlys Lloyd, Rheolwr Partneriaethau Cymunedol/Canolfan Bwyd Cymru, Cyngor Sir Ceredigion
Grahame Guilford (annibynnol)	Perchennog, Grahame Guilford and Company Ltd
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol	Hannah Wharf, Pennaeth Materion Allanol
Partneriaeth Gogledd Cymru	Cyng Dyfrig Siencyn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru	Ruth Jenkins (ar ran Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)
Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) yng Nghymru	Nick Speed, British Telecom
Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) Cymru	Ashley Rogers, Cyfarwyddwr, Gill and Shaw (bore yn unig)
Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector	Janine Downing, CGGC (ar ran Judith Stone, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu'r Sector)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	Tim Peppin, Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy
Partneriaeth De Ddwyrain Cymru	Nicola Somerville, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (ar ran Kelly Beirne, Cyfarwyddwr)
Canolfan Cydweithredol Cymru	Glenn Bowen, Cyfarwyddwr Rhaglen
Undeb Llafur	Nisreen Mansour, Swyddog Polisi, TUC Cymru

Mynychwyr Llywodraeth Cymru

Enw	Rôl ac Adran
Peter Ryland	Cyfarwyddwr, WEFO
Simon Brindle	Cyfarwyddwr, Brexit
Rachel Garside-Jones	Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Gwenllian Roberts	Prif Swyddog Rhanbarthol Gogledd Cymru, Busnes a Rhanbarthau, ESNR
Alison Sandford	Pennaeth Gweithio mewn Partneriaeth, Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Tracey Welland	Pennaeth Gweithredu Strategol, Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Sheilah Seymour	Pennaeth Ymchwil a Dadansoddi, Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Anton Orzel	Pennaeth Polisi Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Geraint Green	Pennaeth Rheoli Rhaglenni, WEFO
Baudewjin Morgan	Pennaeth Horizon 2020, WEFO
Claire Rundle	Ymgysylltu, Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
David Roberts	Ymchwil, Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO

Ymddiheuriadau a dderbyniwyd

Sefydliad	Enw a rôl
Colegau Cymru	Iestyn Davies, Prif Weithredwr
Yr Athro Kevin Morgan (annibynnol)	Yr Athro Kevin Morgan, Llywodraethu a Datblygu, Prifysgol Caerdydd
Undeb Llafur	Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru	Derek Walker, Prif Weithredwr, Canolfan Cydweithredol Cymru
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	Yr Athro Rachel Ashworth, Deon a Phennaeth Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	Paul Maliphant
Partneriaeth De Orllewin Cymru	Cyng Rob Stewart (DO – Abertawe) Cyng David Simpson (DO – Sir Benfro) Cyng Emlyn Dole (DO – Sir Gaerfyrddin)
Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector	Judith Stone, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu'r Sector, CGGC

Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector	Phil Fiander, Dirprwy Brif Weithredwr, CGGC
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru	Cyng Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Ceredigion
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru	Cyng Rosemary Harris, Arweinydd Cyngor Powys
Y Sector Addysg Bellach	Lisa Thomas, Pennaeth Coleg Merthyr Tudful
Partneriaeth De Ddwyrain Cymru	Kelly Beirne, Cyfarwyddwr, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Llywodraeth Cymru	Marcella Maxwell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Strategaeth Economaidd ESNR